

Sue Walker
Prif Swyddog (Dysgu)/Prif Swyddog Addysg
Chief Officer (Learning)/Chief Education Officer

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.

Uned 5, Parc Busnes Triangl, Pentrebach,
Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Unit 5, Triangle Business Park, Pentrebach,
Merthyr Tydfil, CF48 4TQ
Ffôn/Tel: (01685) 725000
Croesawn alwadau yn y Gymraeg
We welcome calls in Welsh
www.merthyr.gov.uk



Dyddiad/Date: 20th June 2022

Teitl: Cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim Cynradd Cyffredinol (UPFSM) yn raddol ar gyfer y plant ieuengaf o fis Medi 2022 ymlaen.

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

O dymor newydd yr Hydref Medi 2022 ymlaen, bydd pob plentyn Meithrin a Derbyn llawn amser yn cael cynnig Prydau Ysgol Am Ddim Cynradd Cyffredinol. Bydd y cynnig hwn yn cael ei ymestyn i bob disgybl Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 erbyn mis Ebrill 2023 fan bellaf. Mae'r cyflwyno hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd yr uchelgais a rennir o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn llwglyd yn yr ysgol.

Byddwn mewn cysylltiad i gadarnhau dyddiad cyflwyno manwl ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2 maes o law ond gallwn gadarnhau **bod pob disgybl Meithrin llawn amser a phob disgybl Derbyn yn gallu cael pryd ysgol am ddim o fis Medi 2022.**

Mewn ymateb i'r gostau byw cynyddol bresennol, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC) wedi ymrwmo i weithredu'r cynllun hwn yn gyflym a byddem yn gofyn am eich amynedd wrth i ni feithrin gallu arlwyo i sicrhau gweithredu graddol llwyddiannus a gweithio tuag at gyflwyno ysgol gyfan i gynnwys Blynyddoedd 3 – 6 erbyn mis Medi 2024.

Byddwn mewn cysylltiad cyn diwedd y tymor i roi rhagor o wybodaeth am y broses o'i chyflwyno o fis Medi 2022. Ar hyn o bryd, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych os oes gennych blant a fydd yn dechrau'r Feithrinfa neu'r Dderbynfa amser llawn ym mis Medi e.e. gofynion dietegol arbennig.

Byddwch yn sicr os yw eich plentyn yn cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd d/neu unrhyw fudd(au) cysylltiedig arall, ni fydd hyn yn effeithio ar yse.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, cysylltwch â myschoollunch@merthyr.gov.uk

Cofion cynnes

FAIRYAL PABANI
Rheolwr Arlwyo'r Ysgolion